# Awdurdod Heddlu Gwent

## Trawsnewid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

### Ynglŷn â'r arolwg hwn

Ar y 15 Tachwedd 2012 cynhelir yr etholiadau cyntaf y tu allan i Lundain ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (PCCs) ledled Cymru a Lloegr. Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn dal prif gwnstabliaid i gyfrif am blismona yn eu hardal heddlu eu hunain ar ran y cyhoedd. Bydd panelau heddlu a throsedd newydd yn archwilio gweithredoedd a phenderfyniadau pob Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a sicrhau bod gwybodaeth ar gael ar gyfer y cyhoedd, gan eu galluogi i ddal Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i gyfrif. Bydd awdurdodau'r heddlu yn peidio â bod.

Ar dechrau haf 2012[1], asesodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth ei Mawrhydi (HMIC) sut y mae awdurdodau'r heddlu yn paratoi ar gyfer y newid hwn. Fe archwilion ni eu cynlluniau trawsnewid ac ymweld â phob awdurdod i ofyn:

- A yw awdurdod yr heddlu yn sicrhau busnes fel arfer hyd Tachwedd 2012?
- A oes gan awdurdod yr heddlu gynllun i reoli'r trawsnewid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu?
- A oes trefniadau wedi eu darparu i ymorol am drosglwyddiad diasiad i Gomisiynwr yr Heddlu a Throseddu?
- A yw rhanddeiliaid eraill yn ymwneud yn llwyr â'r broses trawsnewid?

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi yr hyn a ddarganfuom yng Ngwent. Mae adroddiad thematig, *Preparing for Police and Crime Commissioners,* ar gael o www.hmic.gov.uk

### Darganfyddiadau

#### *Crynodeb*

Mae Awdurdod Heddlu Gwent a Heddlu Gwent wedi sicrhau bod cynlluniau cynhwysfawr yn barod ar gyfer y trosglwyddo i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ym mis Tachwedd ac maent wedi cael awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i gymryd rhan weithredol yn y broses. Maent wedi cefnogi'r gwaith hwn trwy benodi swyddog heddlu ymroddedig i ddarparu gwybodaeth arbenigol a pharhad yn ystod y broses trawsnewid. Mae aelodau awdurdod yr heddlu i'w canmol am eu hymrwymiad parhaus a'u proffesiynoldeb.

---

[1] Digwyddodd cyfarfodydd gydag awdurodau'r heddlu rhwng Ebrill a Mehefin.

Mae agwedd busnes fel arfer wedi ei mabwysiadu wrth ddynesu at yr etholiadau, gyda chymorth cynllunio trwy Gymru gyfan (i sicrhau bod blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn cael eu cydnabod). Mae adroddiad trosglwyddo manwl (‘datganiad o’r gorffennol’) a chynllun drafft yr heddlu a throseddu yn cael ei baratoi, fydd yn helpu Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i weithredu’n effeithiol o’r diwrnod cyntaf. O ganlyniad i etholiadau lleol diweddar, mae saith aelod newydd o awdurdod yr heddlu wedi eu penodi; mae’r awdurdod yn gweithio i gadw trefniadau llywodraethu ar draws yr heddlu. Mae cynlluniau i gyflwyno panel heddlu a throsedd newydd yn datblygu’n dda.

***Sicrhau busnes fel arfer hyd Tachwedd 2012***

Mae aelodau awdurdod yr heddlu yn llwyr ymroddedig i ddarparu arweiniad a rheolaeth gadarn hyd fis Tachwedd, gydag uwch-swyddogion yn cael eu dal i gyfrif am rannau penodol o’r gwaith a (yn enwedig) pherfformiad trosedd.

Er i’r etholiadau lleol diweddar achosi oedi wrth ddatblygu panel yr heddlu a throsedd a dod o hyd i awdurdod lleol i’w derbyn, mae’r cynlluniau bellach yn datblygu’n dda. Mae’r awdurdod yn dal i gymryd penderfyniadau pwysig ynghylch cydweithredu a lleihau gweithlu. Darganfu Arolygiaeth Cwnstabliaeth ei Mawrhydi bethau newydd hefyd, er enghraifft, penderfyniadau i rannu uwch-swyddogion yr heddlu a staff, a chychwyn tîm drylliau ar y cyd â Heddlu Dyfed-Powys a De Cymru.

***Cynlluniau i reoli’r trawsnewid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu***

Mae gan Went fwrdd trawsnewid sefydledig gyda phrif weithredwyr yr awdurod lleol yn cael eu cynrychioli arno. Cefnogir hwn gan fwrdd gweithredu, sy’n cael ei gydgadeirio gan Brif Weithredwr awdurdod yr heddlu a’r Dirprwy Brif Gwnstabl i sicrhau bod y trosglwyddo yn rhedeg yn esmwyth a bod partneriaid yn cael gwybod llawer am y ffordd mae pethau’n datblygu a materion a allai effeithio arnynt.

Mae’r prif beryglon wedi eu henwi a’u graddio o ran pwysigrwydd, gan weithredu i liniaru’r rhain yn y byrddau gweithredu a’r byrddau trawsnewid. Amlygir unrhyw beryglon dirfawr yn yr adroddiad trosglwyddo (‘datganiad o’r gorffennol’) sy’n cael ei lunio ar hyn o bryd. Er bod niferoedd ysgrifenyddiaeth awdurdod yr heddlu wedi lleihau, mae Heddlu Gwent wedi cefnogi’r broses newid trwy benodi arolygydd heddlu i reoli’r gwaith trawsnewid o ddydd i ddydd.

***Trefniadau i ymorol am drosglwyddiad diasiad i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu***

Mae’n bwysig bod Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu sy’n dod i mewn yn gweithio’n effeithiol o’r diwrnod cyntaf. Hwy fydd yn penderfynu pa fodd y dymunant redeg eu swyddfa, dal yr heddlu i gyfrif a chysylltu â’r cyhoedd er mwyn enwi’r blaenoriaethau lleol.  Fodd bynnag, bydd nifer o ddewisiadau yn cael eu cynnwys o fewn y datganiad o’r gorffennol a’r cynllun drafft plismona ac fe all y bydd

Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu am eu defnyddio i gynllunio gweithgaredd yn yr ychydig fisoedd cyntaf.

Mae Awdurdod a Heddlu Gwent wedi rhannu gwybodaeth a medrusrwydd â'r heddluoedd Cymreig i gyd ac maent wedi cymryd rhan ar lefel genedlaethol i sicrhau, er enghraifft, bod cynlluniau cyllidol ac adroddiadau yn fanwl ac yn cyd-fynd â gofynion cyfreithiol. Mae trefniadau ar gyfer swyddfa Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a chynllunio dyddiadurol cynnar dan reolaeth a dylai hyn helpu i sicrhau trawsnewid rhwydd cyn ac ar ôl yr eitholiadau. Bydd Arolygiaeth Cwnstabliaeth ei Mawrhydi yn dilyn rhediad y gwaith hwn drwy'r haf.

***Sut y mae rhanddeiliaid yn cymryd rhan yn y broses trawsnewid***

Mae awdurdod yr heddlu wedi rhoi pwyslais mawr ar gysylltu â phartneriaid eraill (fel yr awdurdodau lleol, swyddfeydd cyfiawnder troseddol a'r sector gwirfoddol). Mae cynlluniau ar gyfer cyfarwyddo ymgeiswyr Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu arfaethedig yn eglur ac fe'i rhennir â staff i sicrhau dull gweithredu cyson.

**Camau nesaf**

Bydd Arolygiaeth Cwnstabliaeth ei Mawrhydi yn parhau i fonitro'r trawsnewid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu gan ganolbwyntio ar drefniadau fydd yn galluogi Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i weithio'n effeithiol o'r diwrnod cyntaf.